




HEDDWCH

Rhifyn 76 > Mis Ionawr 2021 > CND Cymru > Yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear



BYD DI-NIWCLEAR

Newydd da o'r diwedd! Ar yr 22 Ionawr 2021 byddwn yn cymryd ein cam cyntaf tuag at waharddiad byd-eang pan â'r TPNW (y Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear) yn ddeddf yn y Cenhedloedd Unedig. Gall unrhyw un o'r 50 gwlad a'i cadarnhaodd hyd yn hyn ei weithredu.

Bydd niwcs bellach yn anghyfreithlon!

AILGYCHWYN YN 2021

Mae 'na flynyddoedd da a blynyddoedd drwg, ond roedd 2020 mor wael nes gwneud i chi eisiau ei diffodd, tynnu'r plwg arni a dechrau o'r newydd. Ond wrth i'r flwyddyn ddirwyn i ben, cawsom dipyn o newydd da i'w ddathlu: y brechlynnau newydd ar gyfer Covid-19, er enghraifft, er y gall gymryd amser i'r sefyllfa wella.

Rhoi lle canolog i heddwch

Croesawn sefydliad heddwch newydd, sef Academi Heddwch Cymru, â'r nod o gadw ffocws ar faterion yn ymwneud â heddwch yn strategaethau a pholisïau Llywodraeth Cymru, cefnogi ymchwil heddwch, ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae Cadeirydd CND Cymru, Jill Evans, yn egluro'r cwbl ar tt 6-7.

Gwireddu gwaharddiad byd-eang

Cadarnhaodd digon o wledydd gytundeb gwahardd byd-eang y CU (TPNW) iddo allu mynd yn ddeddf ym mis Ionawr 2021 – gweler tt 3-4. Mae hyn yn ychwanegiad arloesol at gyfraith ryngwladol. Mae gwaith caled o'n blaenau i lusgo'r pwerau niwclear i mewn i realiti'r 21ain ganrif, ond y gobaith yw, wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, yr ânt i deimlo'n fwyfwy ynysig. Dichon bod ymdrechion munud-olaf Trump i atal gwledydd llai rhag arwyddo yn dyst i'w effeithiolrwyddd posibl.

Ffarwel maith Trump

Mae polisïau digyswllt Trump ar yr amgylchedd, yr hinsawdd, y pandemig, hiliaeth, hawliau menywod a mudo wedi bod yn gynhennus ac yn wrthun. Wrth inni fynd i'r wasg, mae Trump

yn dal i wadu'r canlyniad ac wrthi'n brysur yn ceisio troi'r drol. Gallai llofruddiaeth prif wyddonydd niwclear Iran ar ddiwedd mis Tachwedd 2020 ailgynnau gwrthdaro ar draws y Dwyrain Canol. Os oes yna un enghraifft amlwg o'r angen am y TPNW, dyma hi.

Helo Joe

Rhaid croesawu buddugoliaeth Biden-Harris, nid am fod gan Biden agenda ddigon radical neu fwyafrif digonol i gyflawni'r oll y dymunem ei weld, ond am i Trump fod mor hynod o annheilwng o'r swydd. Bydd y drefn newydd o leiaf yn ymgysylltu â diplomyddiaeth a chytundebau rhyngwladol – ond dylai ein croeso barhau i fod yn un amodol. Mae tim newydd Biden yn cynnwys rhai ymyrwyr ysglyfaethus.

Ymgrych ddiddiwedd

Llongyfarchiadau i PAWB (Pobl Atal Wylfa B) ar drechu ymgais Hitachi i godi gorsaf bŵer niwclear newydd ar Ynys Môn – ond dyw'r frwydr ddim ar ben. Ymddengys fod PAWB, fel Sisiffws, wedi eu condemnio i wthio'r un clogfaen i fyny'r un bryn am dragwyddoldeb. Hyd yn oed yn awr, mae ein gwleidyddion gwanobaith yn ceisio taro borgen funud-olaf gyda chymhleth milwrol-ddiwydiannol yr UD. Mae Robat Idris yn egluro (t 8) pam mae hynny'n syniad mor wael.

Un arall o ffantasiau Boris

Mae'r naid fwyaf mewn gwariant 'amddiffyn' ers 30 mlynedd ar y gweill. Arfaethir gwastraffu £16.5 biliwn ar ryfel yn y gofod, gynnuau pelydr, cyrchoedd seiber a diplomyddiaeth llong-ryfel – yn ogystal â Trident newydd. Caiff gwario ar allu niwclear sifil newydd ei 'wyrrddgalchu'. Cwtogir ar gymorth tramor. Mae gweithwyr rheng flaen Covid-19 yn haeddu gwell na rhewi eu cyflogau. Gwelyau, da chi, nid gwrthdaro.

Philip Steele



"Rwy'n mynnu newyddion gwell yn 2021."

TIRNOD MEWN GWAHARDD BYD-EANG

Newyddion gwych! Ar 24 Hydref, cadarnhaodd 50fed aelod-wladwriaeth y CU Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear (TPNW).

Y naw gwlad a ddaeth â'r Cytundeb dros y llinell derfyn oedd Honduras, Jamaica, Malaysia, Malta, Nauru, Nigeria, Niue, Saint Kitts & Nevis, a Tuvalu. Golyga hyn y daw'r cytundeb i rym ar 22 Ionawr 2021. Bydd yn ymestyn y ddeddfwriaeth ryngwladol bresennol, sydd eisoes yn gwahardd arfau cemegol a biolegol, i gynnwys arfau niwclear.

Brian Jones

"Gwelsom y dinistr ofnadwy a achosir gan arfau niwclear a'r cysgod hir a deflir ganddynt dros genedlaethau o oroeswyr. Roedd mabwysiadu Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear dair blynedd yn ôl yn gam sylweddol tuag at ein huchelgais tymor-hir o fyd yn rhydd o arfau niwclear. Wrth i fwy o genhedloedd gadarnhau'r cytundeb hwn, gyda'n gilydd rydym yn creu gobaith am ddyfodol gwahanol heb arfau niwclear a heb fraw-ataliaeth niwclear."

Y Prif Weinidog Mark Drakeford (Plaid Lafur Cymru)

"Fel plaid a fu'n gwrthwynebu arfau niwclear erioed, mae Plaid Cymru'n croesawu'r cam hanesyddol hwn ymlaen. Daliwn ar bob cyfle i ddadlau'r achos o blaid Cymru – a byd – di-arfau-niwclear. O ran y Gymru rydym am ei hadeiladu yn y dyfodol, byddwn bob amser yn blaenoriaethu buddsoddi yn yr hyn sy'n ein gwir amddiffyn ac yn helpu i greu cymdeithas gynaliadwy. Does dim rhan i arfau niwclear yn hynny."

Adam Price (Arweinydd Plaid Cymru)

"Fel arweinydd plaid ryngwladol ac allblyg ei hagwedd, rwyf am i'r DU gydweithio'n glòs fel rhan o'r CU, NATO a chydai phartneriaid ledled Ewrop i leihau stoc arfau niwclear y byd. Pan oeddwn yn AS, roeddwn yn falch o gefnogi'r Cytundeb ar Wahardd Arfau Niwclear trwy arwyddo Addewid Seneddwy'r ICAN."

Jane Dodds (Arweinydd Democratiaid Rhyfrydol Cymru)

"Rhaid i ni wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau na chaiff y defnydd disynnwyr o arfau dinistr torfol byth ddigwydd eto. Mae Cytundeb y CU ar Wahardd Arfau Niwclear yn gam pwysig i'w groesawu o ran sicrhau dyfodol mwy diogel i bawb. Gydag argyfwng yr hinsawdd a'r pandemig Covid byd-eang yn tanlinellu'r angen am gydweithrediad a chydweithio rhwngwladol, ni fu'r achos dros wahardd yr arfau dinistr torfol anllad hyn erioed yn gryfach."

Anthony Slaughter (Arweinydd, Plaid Werdd Cymru)

WYDDECH CHI?

Ar 24 Ionawr 1946 mabwysiadodd Cynulliad Cyffredinol y CU ei benderfyniad cyntaf oll, sef sefydlu comisiwn i sicrhau bod arfau atomig a phob arf mawr arall y gellid ei addasu i ddibenion dinistr torfol yn cael eu dileu o arfogaethau gwledydd. 75 mlynedd yn ddiweddarach ...



Llywiiwyd y TPNW gan ICAN (yr Ymgyrch Ryngwladol dros ddileu Arfau Niwclear). Cymerodd 3½ blynedd o'i fabwysiadu (uchod) nes iddo ddod yn gyfraith

hashnod #nuclearban

• Cafwyd cefnogaeth eang i TPNW gan arweinwyr ffydd ledled Cymru. Mae cynlluniau ar gyfer digwyddiadau heddych a chanu clychau eglwys – neu glychau llaw y tu allan i gapeli ac unrhyw addoldai eraill heb glychau – ar yr 22 Ionawr. Gall grwpiau ffydd eraill ddathlu a chynnal digwyddiadau eraill yn unol â'u traddodiadau hwythau.

• Bydd CND Cymru yn trefnu dathliad ar-lein ar yr 22 Ionawr gyda cherddoriaeth gan gorau ac awdwyr – ceir manylion yn nes at y dyddiad.

• Cafodd y newyddion pwysig benawdau ar BBC World Service, ond ychydig iawn o sylw gan y cyfryngau prif-ffrwd yng Nghymru a'r DU ... Gobeithio, gyda'ch help chi, y ceir llw o weithgareddau i ddathlu ledled Cymru pan ddaw'r cytundeb i rym ar yr 22 Ionawr – er gwaethaf tywydd mis Ionawr!

• Yn amlwg mae sefyllfa Covid-19 yn golygu na allwn drefnu digwyddiadau ar raddfa fawr, felly mae'n gyfle i ddefnyddio'ch dychymyg. Ewch ati, ac i gychwyn, dyma rai pethau y gall unigolion, teuluoedd a grwpiau bach eu gwneud:

• Lawrlwythwch ein poster “Rwy'n cefnogi'r TPNW oherwydd...” gan ychwanegu neges – neu crëwch eich poster eich hun. Tynnwch hunlun a'i bostio â'r hashnod #nuclearban. Poster i'r gael yma:

<https://www.cndcymru.org/information/TPNW/poster>

• Gwnewch boster neu faner a'i glymu ar reiliau, neu fe all pobl ddal baner 2 fetr o hyd gan gadw pellter cymdeithasol!

• Plannwch goeden gyda phlac TPNW.

• Addurnwch gacen gyda neges gwrth-niwclear.

• Sgrifennwch neges ar lân y môr – yn y tywod neu gyda cherrig mân neu wymon.

• Beth bynnag wnewch chi – da chi, tynnwch luniau a'u hanfon atom!

heddweithredu:

Angen gwirfoddolwyr

Dim ond am fod ein haelodau'n rhoi o'u hamser i ymgyrchu y mae CND Cymru yn cyflawni unrhyw beth. Hoffem gael dau neu fwy o wirfoddolwyr i hyrwyddo'r TPNW ymhlith grwpiau ffydd, a dau neu fwy o wirfoddolwyr i ymgyrchu ar ddadfuddsoddi gan gwmnïau cynhyrchu arfau niwclear. Os hoffech chi wirfoddoli, e-bostiwch heddwch@cndcymru.org



CAM PWYSIG

YMLAEN

Pam fod y cytundeb gwahardd byd-eang amlochrog mor bwysig?

Er bod cytundebau eraill wedi cyfyngu ar y ffyrdd y gellir datblygu neu amlhau arfau niwclear, does yr un hyd yma wedi datgan bod yr arfau yn anghyfreithlon ynddynt eu hunain.

Nid yw'r cytundeb newydd yn tanseilio cytundebau sy'n bodoli eisoes, fel y mynn rhai; yn hytrach mae'n eu hategu yn ei ddiffiniadau, ac yn ystyried oblygiadau dyngarol pob agwedd ar arfogi niwclear yn llawn.

Er enghraifft, mae'r TPNW yn ymdrin ag effeithiau profion arfau niwclear ar fodau dynol. Creithiwyd bywydau pobl hyd heddiw gan etifeddiath ymbelydrol wenwynig profion arfau'r Rhyfel Oer (gweler t. 5 gyferbyn), o Kazakhstan i Nevada, i Awstralia ac ynysoedd De'r Môr Tawel.

GWADDOL Y PROFION ATOMIG

Mae'r milwyr, sifiliaid, gwyddonwyr a phobloedd brodorol a fu'n rhan o'r profion yn ystod y Rhyfel Oer yn dal i ddioddef. Mae Alan Owen, o Landdarog, Sir Gaerfyrddin, yn ymgyrchu ar eu rhan.

Fy nhad oedd James Ronald Owen, 'Jessie' i'w ffrindiau. Roedd yn y Llynges Frenhinol a mynychodd bob un o gyfres Operation Dominic o brofion atomig ar Christmas Island (Kiritimati) ym 1962. Yn anffodus, bu farw ym 1994 o drawiad ar y galon. Bu farw fy mrawd Gordon James Owen ym 1996 o drawiad ar y galon hefyd, yn 31 oed. Ganed fy chwaer yn ddall yn ei llygad chwith. Credwn bod y marwolaethau a'r anabledl yn gysylltiedig â'r profion. Rwy'n parhau i ymgyrchu er cof am fy nhad a'm brawd.

Bûm yn gadeirydd Cyn-filwyr Profion Niwclear Prydain rhwng 2017 a 2020, pan sefydlais LABRATS i ddarparu llais

Gwelodd ein cefnogwyr greadigaethau mwyaf marwol dyn â'u llygaid eu hunain: ni ddylai neb byth weld hynny eto.

rhyngwladol i oroeswyr y profion atomig ac i ymgyrchu dros ddileu pob arf niwclear.

Pam 'lab rats', creaduriaid yr arbrofir arnynt? Cawsant oll eu defnyddio mewn arbrofion ar effeithiau rhyfel niwclear, yn ddi-hid o'u hiechyd a'u diogelwch. Syrthiodd yr alldafliaid ar filiynau ac mae llawer o'u teuluoedd yn dal i ddioddef o salwch a namau corfforol. Mae'r mwyafrif wedi marw, a'u straeon yn dal heb eu clywed gan drwch y boblogaeth.

Dysgais beth oedd maint byd-eang y broblem tra'n siaradwr gwadd yn annerch Cymdeithas Genedlaethol Cyn-filwyr Atomig yn UDA. Siaradais â thrigolion o Ynysoedd Marshall a Gilbert a Pholynesia Ffrengig. Dioddefodd y bobl hyn gymaint, eu cartrefi wedi'u dinistrio a'u tiroedd wedi'u halogi. Mae storfa wastraff Runit Dome yn Ynysoedd Marshall yn fom amser angylcheddol sy'n dal i dician.

Mae LABRATS International yn hyrwyddo gwaith unigolion a chyrrff sy'n cynrychioli cymunedau'r profion atomig a niwclear ledled y byd. Ein nod yw darparu gwybodaeth am y profion a datgelu'r anghyfiawnder a ddioddefwyd gan gyn-filwyr a gymerodd ran.

Rhaid inni beidio byth ag anghofio beth wnaeth y profion



Cyfes o brofion gan yr UD, a ollyngodd 24 bom i'r de o Christmas Island dros 78 diwrnod. Bu lluoedd arfog Prydeinig yn arsylwi ar y profion.

i'r blaned hon, faint o bŵer dinistriol sydd gan arf atomig a'r canlyniadau i bawb yn y cyffiniau. Rhedodd y rhaglen brofion fyd-eang o 1945, tan 2017 yng Ngogledd Korea.

Mae LABRATS yn cynnig help ac arweiniad i raglen RECA yr UD, sy'n darparu cymorth ariannol i rai o'r DU a gymerodd ran yn Operation Dominic. Rydym yn lobbio llywodraethau ac yn ymgyrchu â blogiau, podlediadau a chyfryngau cymdeithasol.

heddweithredu:

Ygallwch ddysgu am ein gwaith ar lein yn <https://www.labrats.international/> a'n dilyn ar Gweplyfr <https://www.facebook.com/atomiclabrats> neu ar trydar @atomiclabrats. Mae'n gwefan yn cynnwys fideos, dogfennau ymchwil, rhestr o fudiadau eraill a lincs i gyfryngau cymdeithasol.

GWELEDIGAETH NEWYDD I GYMRU

Bydd Academi Heddwch Cymru yn anelu at roi heddwch wrth galon yr agenda wleidyddol a chymdeithasol, meddai Jill Evans, Cadeirydd CND Cymru.

Ar yr 21 Medi 2020 ymunodd Cymru â'r byd o ran bod â'i chorff ymchwil a gwybodaeth ei hun sy'n ymroddedig i heddwch. Sefydlwyd Academi Heddwch Cymru yn swyddogol ar Ddiwrnod Heddwch Rhyngwladol.

Cafodd ein cynlluniau ar gyfer lansiô'r Academi yn Eisteddfod Tregaron, fel cymaint o bethau eraill, eu difetha gan Covid-19. Er gwaethaf ein siom, penderfynnodd fwrw ymlaen a dod â'r Academi i fodolaeth serch hynny. Bydd angen mewnbwn yr Academi Heddwch ar y gwaith o adeiladu Cymru yn ôl eto ar ôl blwyddyn o drawma, i sicrhau bod ein dyfodol yn wahanol.

Esgor ar syniad

Bu llawer ohonom yn ymgyrchu ers 10 mlynedd a mwy i Gymru gael ei sefydliad heddwch ei hun, rhywbeth sydd gan y rhan fwyaf o wledydd y byd, er eu bod yn amrywio'n fawr o ran natur. Mae hunaniaeth a hawliau lleiafrifol yn nodwedd bwysig o sawl un. Roedd yn hanfodol i'n Hacademi Heddwch fod yn benodol Gymreig ac ymateb i'n hanghenion.

Cynigiwyd y syniad gyntaf yn dilyn cynlluniau llywodraeth y DU i breifateiddio a chyfuno holl hyfforddiant milwrol y DU mewn academi filwrol enfawr yn Sain Tathan ym Mro Morgannwg. Byddai hyn wedi bod yn ganolbwynt i holl baratodau rhyfel nid yn unig y DU ond unrhyw wledydd eraill a ddymunai dalu am hyfforddiant.

Croesawyd y cynnig gan Lywodraeth Cymru a llawer o wleidyddion. Fe'i gwelid fel buddsoddiad ariannol hanfodol. Addawyd miloedd o swyddi newydd. Doedd y mwyafrif o'r rhain ddim yn newydd ond i'w hadleoli o'rannau eraill o'r DU. Wfttiwyd ffeithiau a phryderon go

iawn. Ymosodwyd ar lawer ohonom a oedd yn gwrthwynebu'r cynlluniau yn y cyfryngau: cefais i fy ngalw'n "beryglus" hyd yn oed!

Roedd hyn yn troi popeth wyneb i waered. Yn gwbl groes i'n traddodiad heddwch hir, roedd Cymru i fynd yn ffocws i baratodau rhyfel bydeang. Roeddem mewn gwewyr llwyr i feddwl y gallai gwleidyddion ystyried dyfodol o'r fath i'n cenedl.

Cymru a Fflandrys

Trafodais hyn gyda chyn-gydweithreg i mi o Fflandrys yn Senedd Ewrop, Nelly Maes. Awgrymodd hithau y dylem weithio tuag at Sefydliad Heddwch, fel a geir yn Fflandrys, i gynghori a llywio penderfyniadau'r llywodraeth. Daeth sefydliad Fflandrys i fod yn 2004, wedi'i ariannu gan Senedd Fflandrys. Mae'n ddyletswydd ar y senedd i ymgynghori ag ef ac ystyried ei gyngor. Mae'n sicrhau bod pob agwedd ar unrhyw gynnig yn cael ei ystyried o ran ei effaith ehangach.

Deiseb i'r Cynulliad

Siaradais yn eang am yr angen am sefydliad heddwch yng Nghymru a buan y casglodd y syniad gefnogaeth. Casglodd deiseb i'r Cynulliad Cenedlaethol yn 2010 dros 1,500 o lofnodion ac fe'i cefnogwyd mewn egwyddor gan y Cynulliad, er nad oedd cyllid ar gael gyda pholisïau cyni yn eu hanterth.



Brwsel 2009: John Cox, Ben Gregory a Jill Gough yn cyfarfod â Nelly Maes, Jill Evans a Tomas Baum.

“Nid dim ond absenoldeb rhyfel yw ystyr heddwch, ond gweithredu heb drais, cynaliadwyedd, cydraddoldeb a chyfiawnder. Bydd academi sy'n ymchwilio i effeithiau penderfyniadau'r llywodraeth a'r posibilïadau iddi weithredu, yn cynnwys ym maes addysg, o fudd enfawr.”

Ffordd ymlaen

Yn y blynyddoedd dilynol, archwiliodd ein grŵp llywio bychan ond ymroddedig lawer o opsiynau ar gyfer sefydlu corff unigryw i Gymru a fyddai â pharch Llywodraeth Cymru ac eraill er mwyn gweithredu'n effeithiol. Mae gennym eisoes fudiad heddwch gweithredol yng Nghymru sy'n ymgychu ar lawer o faterion. Mae'r Academi Heddwch yn rhywbeth cwbl wahanol. Bydd yn dod ag arbenigwyr ac academyddion ynghyd i gynhyrchu adroddiadau i'n tywys wrth adeiladu cymdeithas gynaliadwy a heddychlon yn ei hystyr ehangaf.

Dod ynghyd

Mae'r Academi Heddwch wedi dwyn ynghyd ein holl brifysgolion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, y Gymdeithas Ddysgedig a'r mudiad heddwch. Fe'n cefnogir hefyd gan swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn ein blwyddyn sylfaen, byddwn yn gweithio ar ehangu ein hapel i bob rhan o'r gymdeithas.

Y gorffennol, y presennol, a'r dyfodol

Rydym yn y broses o nodi gwaith ymchwil sydd eisoes ar y gweill a all gyfrannu at ein dealltwriaeth o'n hanes a'n dyfodol o safbwynt Cymru fel cenedl heddwch. Bwriadwn drefnu cynadleddau a seminarau pan fydd amgylchiadau'n caniatáu yn ogystal â cyhoeddi adroddiadau.

Un o brojectau ymarferol cyntaf yr Academi yw arwain y gwaith i goffâu deiseb heddwch menywod Cymru i UDA ym 1924, a chynyddu ymwybyddiaeth pobl ohoni. Rydym yn paratoi ar gyfer arddangosfa yn yr Amgueddfa Genedlaethol



Tangnefeddwyr Ifanc WCIA yn Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn 2019, disgyblion o Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Bydd addysg yn un o flaenoriaethau'r Academi Heddwch newydd.

ac yn y Llyfrgell Genedlaethol. Rydym hefyd yn llunio cyfrol ynglŷn â'r orchest hynod hon.

Cartref yr Academi yw'r Deml Heddwch ac Iechyd yng Nghaerdydd er y bydd y gwaith, mewn gwirionedd, yn digwydd ledled y wlad.

Llygedyn o obaith

Mae'n gynnwys eto, ond gwn y bydd ein Hacademi Heddwch yn ased werthfawr i Gymru ac yn un a werthfawrogrir ganddi. Bydd yn ein gosod yn gadarn ar y map heddwch rhyngwladol.

Mae wedi bod yn brosesfaith ac yn aml yn un galed, a mawr iawn yw'r dolch sy'n ddyledus i'r llw o bobl a chwaraeodd ran ar hyd y ffordd. Heb yr holl ymdrech, ni allem fod wedi dod cyn belled. Ond mae gennym ffordd bell o'n blaenau o hyd.

Bu 2020 yn flwyddyn o argyfwng a phryder. Roedd sefydlu'r Academi Heddwch yn un golau disgrlair yn y tywyllwch: golau a fydd yn helpu i dywys ein llwybr tuag at ddyfodol gwell ac un gwahanol.

UN TAFLIAD OLAF O'R DIS?

Beth nesaf i Wylfa? Mae Robot Idris yn gobeithio nad y consortiwm yma o'r UD...

Ar 16 Medi 2020 rhoddodd Hitachi y gorau i'w cynllun i adeiladu atomfa yn Wylfa. Felly pam na fedrwn ni lawenhau fod yr hunllef niwclear drosodd ar Ynys Môn? Mae Horizon, y cwmni lleol sy'n wyneb cyhoeddus Hitachi yma, wedi gofyn am estyniad pellach tan 31 Rhagfyr 2020 i'r broses o gael Gorchymyn Caniatáu Datblygiad gan Lywodraeth Llundain – er mwyn siwtio consortiwm newydd o'r Unol Daleithiau sy'n cynnwys Bechtel, Westinghouse a Southern Power. Roedd Bechtel i fod yn un o bartneriaid Hitachi i adeiladu Wylfa. Dyma rai o'u camweddau:

- Cael dirwy o bron \$58 miliwn am dwyll dros 10 mlynedd gyda cwmni arall yn Hanford Nuclear Reservation, safle mwyaf niwclear-lygredig yr USA.
- Preifateiddio dŵr ym Molifia, fel na fedrai pobl gyffredin eu fforddio, cyn cael ei hel o'r wlad.
- Cytundeb i adeiladu ffatri gemegau i Saddam Hussein, er eu bod yn gwybod ei fod wedi defnyddio arfau cemegol yn erbyn y Cwrdiaid cyn hynny.
- Ymelwa o Ryfel Irac drwy gytundeb gwerth \$680 miliwn gan Lywodraeth yr USA.
- Mae Westinghouse yn fethdalwr oherwydd ei fentrau niwclear gyda Southern Power. Rhoesant y gorau i adeiladu adweithyddion AP1000 o'r math a argymhellir i Wylfa, yn Ne Carolina, gan adael y trethdalwyr i orfod talu o hyd am atomfa na fydd yn weithredol, ac sydd wedi dyblu mewn pris. Ac yn Georgia, USA, mae prosiect tebyg flynyddoedd ar ei hôl hi, heb sicrwydd y bydd yn cael ei gwblhau. Pwy yn ei iawn bywll fyddai am groesawu consortiwm o'r fath? Iawn y tro cyntaf – rhai o'n gwleidyddion! A fedrwn ni ddim anghofio y bygythiad yr Adweithydd Modiwlwr Niwclear Bychan chwaith!

... a beth os mai 2021 fydd diwedd y ffordd i Wylfa B? Dr Carl Clowes sy'n edrych ar ganlyniadau amgen.

Mae penderfyniad Hitachi i derfynu eu diddordeb yn y 409 hectar o Arfordir Treftadaeth yn Wylfa yn creu sawl cyfle. Mae ail-feddiannu'r safle, sy'n gyfoeth o hanes, harddwch gwledol a bywyd gwyllt, wedi arwain **Wylfa Ni**, grŵp ad hoc, i geisio cefnogaeth ar gyfer trosglwyddo'r tir sy'n eiddo i Hitachi yn ôl i berchnogaeth leol.

Byddai trosglwyddiad o'r fath yn sicrhau mai pobl Ynys Môn fyddai'n atebol am y tir. Beth bynnag a 'gytunir' o ran defnydd y tir, rhaid i unrhyw gynnyg, wrth gwrs, fod yn gynaliadwy ac yn amgylcheddol gyfrifol.

Bydd gwerthusiad o'r opsiynau yn cynnwys cyfleoedd ar gyfer:

- cyflogaeth
 - budd ieithyddol a diwylliannol
 - gwerth addysgol
- Mae'r syniadau hyd yma yn cynnwys dehongli archaeoleg gyfoethog y safle ac amrywiaeth daeareg yr ynys fel yr amlygir hynny yn ei statws fel Geobarc UNESCO.

Cysylltwyd ar fyrder â Phencadlys Hitachi yn Tokyo yn amlinellu amcanion Wylfa Ni a cheisio ffordd o hwyluso ein huchelgaais.



Ta-ta Hitachi! Hoffai PAWB ddiolch i'n ffrindiau gwrth-niwclear o Japan am eu cefnogaeth wych ar hyd y blynyddoedd.

HINKLEY YN Y SENEDD

Yn 2018 carthodd EdF waddod o Fae Bridgewater, lle bu pibellau all-lif Hinkley Point A a B yn gollwng gronynnau ymbelydrol ers 50 mlynedd a mwy, a'i ddympio yn y môr ger Bae Caerdydd. Yn 2020 gofynnodd EdF i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a allent wneud cais am drwydded i

ddympio mwy o waddod yn 2021, heb wneud Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA). Yn dilyn deiseb enfawr o fwy na 10,000 o enwau, a gyda dadl i'w chynnal yn y Senedd, cyhoeddodd EdF y byddant yn gwneud AEA, ond na fyddai yn eu rhwymo.

Ar hyn o bryd, mae pa faterion

sydd i'w hystyried gan yr AEA yn dal yn destun trafod, ond un canlyniad i ddadl y Senedd yw bod Aelodau wedi gallu codi materion allweddol. Bydd rhaid i'r rhain fod wedi cael sylw (neu gael eu gweld yn cael sylw) pan ddaw cwestiwn y mwd yn ôl i'r Senedd.

Brian Jones

EGINO: HAU HADAU CAMARWEINIOL

Mae Gweinidog Economi Llywodraeth Cymru, Ken Skates, wedi gwthio'r syniad o gwmni newydd, Eginio, i ddatblygu Trawsfynydd ar gyfer Adweithyddion Niwclear Modiwlaid Bach (SMNR). Gallai'r safle gynnwys adweithydd ymchwil feddygol o bosib. Medd Dr Ian Fairlie, cyn-

bennaeth Swyddfa Pwyllgor Llywodraeth y DU i Archwilio Peryglon Ymbelydrol Allyrwy'r Mewnol (CERRIE): "Ar hyn o bryd does dim adweithyddion ymchwil feddygol yn y DU. Gellir cynhyrchu'r holl isotopau angenrheidiol at ddibenion meddygol yn llawer mwy diogel gan seicltronau, a go brin y

bydd unrhyw brinder isotopau o'r fath. Er bod rhai isotopau Cobalt-60 yn arfer dod o adweithyddion niwclear Canada, mae'r rhain bellach yn cael eu cau. Mae'r diwydiant niwclear yn ffug-honni bod angen adweithyddion at ddibenion meddygol – does dim."

Brian Jones

UN ARBRAWF NIWCLEAR YN ORMOD

Rhaid i ni ymateb i'r argyfwng cynhesu byd-eang cyn pen 10 mlynedd yn ôl y CU. Un o'r deg pwynt yn ymateb llywodraeth San Steffan yw codi nifer o SMNRs (Adweithyddion Niwclear Modiwlaid Bychan) ond hyd yn oed os mai i safle Trawsfynydd y daw'r "adweithydd cyntaf o'r math hwn", dydy technoleg Rolls Royce ddim yn barod eto.


Mae CADNO o blaid swyddi rwan, nid ymhen blyneddod. Rhagwelir y bydd cynhyrchu ynni adnewyddol yng Nghymru yn cynyddu o 500% mewn 15 mlynedd a defnydd o drydan yn gostwng o 18%. Dim ond hanner y trydan a gynhyrchir yng Nghymru a ddefnyddir yma.

Enwyd Mochras, Llanbedr, ar fapiau o safleoedd posibl ar gyfer storio gwastraff niwclear. Mae un math o SMNR yn cynnwys 2.5 tunnell fetrig o blwtoniwm ar ddiwedd ei oes. Dyna pam roedd angen Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol arnom.

Yn ôl William Van Hoene o gwmni niwclear Exelon yr UD, mae costau'r SMNR yn afresymol. Cefnu ar y diwydiant y mae llawer o wledydd bellach ond mae Prydain yn ceisio'i atgyfodi. Pam? Dair blynedd yn

ôl, dangosodd adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddiffygion difrifol yn yr achos dros godi mwy o orsafoedd pŵer niwclear. Mae gwaith gan Brifysgol Sussex ac eraill yn dangos yn eglur y cyswllt rhwng ynni niwclear sifil a Trident. Anfonwn neges glir at ein cynghorwyr, at Ken Skates, ac at San Steffan: DIM SMNRs!

Deilwen Evans, CADNO



Dim mynediad! Cadwch SMNRs allan o Drawsffynydd.

CYMRU DAN GLO WALES IN LOCKDOWN**Taith hirfaith**

Pan ymddangosodd y rhifyn diwethaf o *Heddwch* ychydig o bobl a ddychmygai y gwelai'r hydref y gyfradd heintio yn dychwelyd i lefelau'r gwanwyn. Parodd y cyhoeddiad am ganlyniadau ffafriol brechlyn rywfaint o obaith am 2021, wedi'i dymheru â phwyll. Yn y cyfamser, gadewch inni werthfawrogi ein hathrawon a'n gweithwyr iechyd – ac aros yn ddiogel.

Achubiaeth ar-lein

Zoom, Skype ac ati yw'r norm bellach ar gyfer cyfathrebu. I aelodau pwyllgor CND Cymru a grwpiau Heddwch a Chyfiawnder ledled Cymru, mae wedi gwneud bywyd yn haws ac mae llawer ohonom wedi cymryd rhan mewn gweminarau ledled y byd. Ond yn y tymor hwy, ni ellir adeiladu undod a nerth mewn dau ddimensiwn.

Fforwm niwclear

Cynhaliwyd Seminar Hydref Cymru yr Awdurdodau Lleol Niwclear (NFLA) ar-lein fis Hydref, dan gadeiryddiaeth Sean Morris. Fe'i cyflwynwyd gan y Cynghorydd Sue Lent (Caerdydd).

Siaradodd Thomas Pitt ar ran CND Cymru am yr Ymgyrch Rhyngwladol dros Ddileu

Arfau Niwclear (ICAN), hynt galonogol cytundeb gwahardd byd-eang y CU (TPNW), a'r angen i ail-ymgysylltu â chynghorau Cymru.

Soniodd Tim Deere-Jones am ymgyrch Bae Geiger Caerdydd, a'r pryderon iechyd cyhoeddus, amgylcheddol a diogelwch ynghlwm wrth ddympio llaid o Hinkley. Soniodd Neil Crumpton, o PAWB (Pobl Atal Wylfa B), am ragolygon Trawsfynydd pe bai'r cynllun Adweithyddion Niwclear Modiwlaid Bach arfaethedig yn mynd rhagddo, ac am yr hyn a allai ddigwydd yn Wylfa. Eglurodd Dan McCullum, Cyfarwyddwr Menter Gydweithredol Egni, sut y gallai cynghorau Cymru helpu i ddarparu ynni carbon-isel.

Pabïau heddwch

Mae pabïau gwyn yn cael eu gwisgo er cof am holl ddioddefwyr rhyfel, gan gynnwys sifiliaid a'r gelyn. Eleni roedd pabïau gwyn y Peace Pledge Union ar gael am y tro cyntaf yn Gymraeg (gyda HEDD yn y canol). Cawsai niferoedd bach eu gwneud ar gais unigol o'r blaen, ond nawr gellir eu harchebu fel nwyddau prif-ffrwd ynghyd â deunydd cyhoeddusrwydd Cymraeg.

Coffáu

Roedd gwerthu a dosbarthu pabïau gwyn yn anodd yr hydref yma o achos y cyfnod cloi Covid, ond o Aberystwyth i Drefcyclo ymgasglodd pobl gan sefyll ar wahân a gwisgo masgiau er mwyn gosod torchau gwyn wrth ochr y rhai coch.



Gosodwyd pabïau gwyn gan Heddwch a Chyfiawnder Trefcyclo, Grŵp Cefnogi Ffoaduriaid Trefcyclo a'r Cylch, Amnest Rhyngwladol a Chysylltiadau Palesteina Maesyfed.

CYMRU DAN GLO WALES IN LOCKDOWN

Condemnio fandaliaeth

Yn Nhrefyco tynnwyd torchau gwyn o'u lle a'u fandaleiddio ar ôl y seremoni. Fodd bynnag, rhyddhaodd cangen leol y Llang Brydeinig ddatganiad cymodlon yn ddiweddarach: 'Gosodwyd y torchau hyn fel rhan o weithred Goffar dref ar Sul y Cadoediad. Dylent fod wedi cael eu trin â'r un parch ag unrhyw dorch arall a osodwyd fel rhan o'r seremoni honno. Mae'r gangen leol yn arwyddo bod atgasedd personol rhai unigolion tuag at, neu eu anghytundeb â, naill ai pabiau gwyn neu'r sefydliadau a'u gosododd, wedi arwain at y weithred hon o fandaliaeth. Mawr obeithiwn na chaiff y digwyddiadau anffodus hyn eu hailadrodd yn y blynyddoedd i ddod.'

Rhyddid pwy?

Mewn dadl yn Neuadd Westminster ym mis Hydref 2020 dywedodd Virginia Crosbie, AS Toriaidd Ynys Môn, 'Fe glyw fy mhiant y jetiau [Hawk] yn hedfan dros ein cartref ger y Fali, a finnau'n dweud wrthynt, "Dyna sŵn rhyddid." ' Dyma'r jetiau Hawk sy'n hyfforddi peilotiaid Saudi Arabia ar gyfer y rhyfel yn Yemen (gwel. *Heddwch 75*), lle bu cynnydd mawr yn nifer y plant sy'n cael eu hanafu.

Wrth i Liz Truss, yr Ysgrifennydd Masnach Ryngwladol, ystyried cannoedd o geisiadau am drwyddedau allforio arfau i Saudi Arabia, mae'r Ymgyrch yn Erbyn y Fasnach Arfau (CAAT) yn mynd â'r llywodraeth yn ôl i'r llys.

Wedi eu naddu mewn carreg?

Wedi protestiadau Bywydau Duon o Bwys yr haf yng Nghymru, comisiynodd Llywodraeth Cymru Gaynor Legall, arweinydd cymunedol o Gaerdydd, i arwain archwiliad o henebion, enwau strydoedd ac adeiladau yn gysylltiedig â chaethwasiaeth a gormes imperialaidd. Canfyddwyd dros 209 o achosion ledled Cymru. Gobaith ymgyrchwyr

a fu'n protestio ers 10 mlynedd am gerflun HM Stanley yn Ninbych oedd y byddai hyn yn cyflymu'r broses o'i symud.

O Balesteina i Bontypridd

Mae i'r 'Clo Mawr' ystyr arbennig i bobl Gasa, sy'n brin o ryw 47 y cant o feddyginiaethau hanfodol. Dangosodd De Cymru gefnogaeth i'r rhai sy'n dioddef ym Mhalesteina ar y 28 Tachwedd 2020, gyda phrotestiadau a gynhaliwyd (a phawb yn cadw'u pellter) ym Mhontypridd, Caerdydd, Casnewydd, Caerffili, Aberhonddu, Y Fenni, Penarth, Pen-y-bont ac Abertawe.

Protestiadau Penalun

Ymhlith y materion a dreiddiodd drwy niwl y Covid yng Nghymru yr hydref hwn oedd penderfyniad y Swyddfa Gartref fis Medi i ddefnyddio hen wersyll byddin ym Mhenalun, Sir Benfro, wedi'i amgylchynu â weiren bigog, i gartrefu ceiswyr lloches o Iran ac Irac. Ni fu unrhyw ymgynghori â phobl leol na llywodraeth Cymru. Cafwyd gwrthdystiadau hyll gan grwpiau asgell-dde eithafol y tu allan i'r gwersyll, wedi'u gwrthbwyso gan brotestiadau cyson gan Fforwm Gorllewin Cymru o Wrthsefyll Hiliaeth – yn croesawu'r floaduriaid a gresynn at eu hamodau byw. Cafwyd protestiadau hefyd gan y rhai a garcharwyd yn y gwersyll.



Protestwyr Gwrthsefyll Hiliaeth yn picedu gwersyll Penalun.

FFISEG NIWCLEAR Â CHYDWYBOD

Darllenais â diddordeb mawr adolygiad ardderchog Jill Gough o Wales and the Bomb yn Heddwch rhif 75 (Haf 2020), grifenna Chris Jones.

Fodd bynnag, fe'm lloriwyd i braidd gan yr awgrym mai ychydig [o'r gwyddonwyr o Gymry a chwaraeodd ran mewn datblygu'r bom] a oeddodd i ystyried oblygiadau moesol arfau niwclear.

Roedd fy nhad, W. Mervyn Jones, yn un o'r gwyddonwyr hynny. Ar ôl graddio mewn Ffiseg ag anrhydedd dosbarth cyntaf yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ym 1942, fe'i cyfeiriwyd gan banel ymwelwyr i weithio gyda'r Athro Franz Simon ar y 'Tube Alloy Project' (ffugenw project y bom atomig) yn Labordy Clarendon yn Rhydychen. Ar ôl derbyn ei D.Phil gan Brifysgol Rhydychen ym 1946 symudodd i Harwell lle cyflogwyd ef fel Swyddog Gwyddonol.

Roedd fy nhad a llawer o'i gydweithwyr (yn Gymry ac yn rhai o wledydd eraill) yn gwaredu at Hiroshima a Nagasaki, a hwythau wedi credu erioed na fyddai'r bom byth yn cael ei ddefnyddio ac y byddai'n gyfrwng atal rhyfeloedd yn y dyfodol.

Roedd goblygiadau moesol y weithred hon yn destun dadl danbaid ymysg y gwyddonwyr hyn. Mae dyfyniad o

ddyddiadur fy nhad ar gyfer Ionawr 1946 yn nodi'r canlynol: "Cynhaliwyd cyfarfod am chwech yn y labordy i drafod llythyr drafft gan grŵp T.A. [Tube Alloy] yn Rhydychen at aelodau eraill grŵp T.A. [ledled y DU] ynghylch ein hagwedd tuag at ynni atomig ... roeddem am bwysleisio'i effeithiau gwael posibl ond gwrthwynebodd yr Athro Simon.


Dywedodd ei fod yn credu y dylem ddweud ein bod yn teimlo cyfrifoldeb a'n bod felly am ffurfio rhyw fath o grŵp. [Fodd bynnag] nid oeddem am ffurfio grŵp oni bai ei fod yn cynnwys pobl â'r un nodau. Pasiwyd cynnig yn dweud mai ein prif nod oedd rhoi cyhoeddusrwydd i beryglon ymchwil atomig ..."

Gadawodd fy nhad Harwell ym 1948 ac fe'i penodwyd yn Ddarlithydd mewn Ffiseg yn ôl yn Aberystwyth, lle treuliodd weddill ei yrfa. Dywedodd mai'r rheswm yr ymadawodd â Harwell oedd: "Roeddwn i'n teimlo fy mod yn colli cysylltiad â ffiseg ac roeddwn yn anhapus â'r penderfyniad i ddatblygu'r 'ddyfais niwclear'" (100 years of Physics at UCW Aberystwyth 1884 to 1984 gan W M Jones).

Yn y 1950au daeth fy nhad yn aelod gweithgar o CND pan ffurfiwyd e gyntaf ac ymunai yn aml â gorymdeithiau



W. Mervyn Jones ym 1949.



Manifesto Russell-Einstein, 1955.

Aldermaston. Roedd hefyd yn weithgar yn "Pugwash" a sefydlwyd gan Bertrand Russell a Joseph Rotblat ym 1955. Yr enw gwreiddiol oedd "manifesto Russell-Einstein" a aeth yn "Gynadleddau Pugwash ar Wyddoniaeth a Materion y Byd" wedi cyfarfod ym 1957 yn Pugwash, Nova Scotia. Ei nod oedd meithrin defnydd heddychlon o wyddoniaeth yn fyd-eang. Mae'n dal yn weithredol, gweler: <https://britishpugwash.org/>

Credai Rotblat y dylai gwyddonwyr 'bob amser ymboeni am ganlyniadau moesegol eu gwaith', barn a goledidd yn gryf gan fy nhad.

PEDWAR DEGAWD O YMGYRCHU:

archif o weithredu ar gyfer cenedlaethau i ddod

Fel Cynghorydd Treftadaeth i Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru yng Nghaerdydd, bu Craig Owen wrthi'n archifo hanes CND Cymru.

Gyda Chytundeb y Cenedloedd Unedig ar Wahardd Arfau Niwclear yn dod yn rhan o gyfraith ryngwladol – i gyd-daro, yn hynod, â Diwrnod y Cenedloedd Unedig 2020 – mae CND Cymru yn haeddu seibio am ennyd i fyfrio ar y pedwar degawd o ymgyrchu a ddaeth i'w anterth yn y fan yma.

Gweithiodd CND Cymru yn glòs gyda phroject 'Cymru dros Heddwch' Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru (WCIA) (www.heddwch.cymru)

yn y Deml Heddwch, trwy gydol cyfnod cau COVID; i ddigideiddio Archifau Cymru CND. I nodi #Hiroshima75 ym mis Awst 2020 – gyda chynlluniau ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol wedi'u canslo oherwydd y pandemig – lansiodd WCIA ran gyntaf archif CND, sydd bellach ar gael yn barhaol ac i'r cyhoedd trwy'r archif ddigidol genedlaethol, Casgliad y Werin (a gedwir gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru).

Mae rhan gyntaf Archif CND Cymru yn cofnodi ac yn dathlu 40 mlynedd o weithredu gwrth-

niwclear ledled Cymru – gyda chynnwys llawn y cylchgronau *Heddwch, Campaign Wales* a *Campaign Action News* o 1982 tan y presennol (copïau Cymraeg a Saesneg), yn ogystal ag archifau o Ymgyrch Bynar Pen-y-bont ar Ogwr 1982.

heddwethredu:

Galw am wirfoddolwyr

Mae ail ran y gwaith, sydd bellach ar y gweill, yn cynnwys ychwanegu rhestrau cynnwys ar gyfer pob cyhoeddiad (fel bod erthyglau penodol yn weladwy mewn chwiliadau Google perthnasol); digideiddio ac ychwanegu deunyddiau archif pellach oddi wrth aelodau CND; a throsi Tudalen Hafan

- Gweler 'Hiroshima75' Lansio Archif CND Cymru, erthygl WCIA – <https://www.wcia.org.uk/wcia-news/wcia-history/hiroshima-75/>

- Hafan Archif CND Cymru – <https://www.wcia.org.uk/cndcymruarchives/>

- Casgliad y Werin – Hafan Cymru dros Heddwch – <https://www.casgliadywerin.cymru/users/8498>

yr Archifau i'r Gymraeg. Os gall unrhyw aelodau o CND Cymru (neu blant/myfyrwyr/pobl ar ffyrlo!) wirfoddoli i helpu gyda'r tasgau hyn – y gellir eu gwneud oll o hirbell/tra'n gweithio gartref – cysylltwch â craigowen@wcia.org.uk



Mae lluniau hynod – cywrain a ffraeth – Dai Owen ar gyfer Heddwch wedi crisialu ysbryd yr oes a chodi'n calonnau dros y blynyddoedd



Confessions of a Non-Violent Revolutionary (*Bean Stew, Blisters, Blockades and Benders: The True Story of a Peace Activist in Thatcher's Britain*) gan Chris Savory

Clairview Books, 2020

ISBN 9-781912-992140 Clawr papur, 192tt, £12.99

Mae'r cofiant hwn gan Chris Savory yn olrhain ei ran yn y dyddiau cyffrous hynny (1980au yn bennaf) o weithredu uniongyrchol ac ymgyrchu ar lawr gwlad. Os cofiwch chi amserau iasoe'r Thatcher a Reagan, o Greenham, Molesworth a Menwith Hill, Streic y Glowyr, Adhawlio'r Nos, Gorymdaith Heddwch y Byd 1982, Pershing a Cruise, ac ymgyrch Treth y Pen, fe ddaw'r llyfr hwn â'r cwbl yn ôl.

Fel erioed, er bod dysgu o'r gorffennol mor bwysig, roedd y mwyafrif ohonom mor brysur yn y dyddiau hynny nes i lawer ddigwydd heb ei gofnodi.

Mae Chris, (fel Ann Pettit gyda *Walking to Greenham: How*

the Peace Camp Began and the Cold War Ended) wedi llwyddo i gyflawni'r amhosib bron, a chofnodi ei atgofion – a hynny mewn ffordd hynod ddifyr.

Mae'n dangos yn glir bwysigrwydd gweithredu uniongyrchol, fel modd o alw sylw'r cyhoedd at fater arbennig a hefyd fel math o therapi i weithredwyr.

Yn y nosweithiau tywyll di-gwsg hyn yn 2020, i seiniau prudd y BBC World Service, ar ôl degawdau o ymgyrchu, ag amser yn prinhau, dyma atgoffa'n hunain: "Oni bai i ni weithredu fel y gwnaethom, dichon y byddai pethau'n waeth nawr", a phe na baem wedi codi llais byddai'r rhai a'n holynai yn edrych yn ôl a dweud "roedd yr holl bethau erchyll hyn yn digwydd a neb yn dweud dim na gweithredu'n uniongyrchol".

Mae Chris yn sgrifennu am unigolion, ymdeithiau heddwch yn UDA gyda mynaich, yn yr Almaen i ganolfan taflegrau'r UD ac, yn fwyaf diweddar, am brotest XR ar Bont

yn dechrau gyda marwolaeth a achoswyd gan ddamwain (ffuglennol) felly.


Ond ai damwain oedd hon go iawn? Mae'r storiwraig gref, ddi-lol yn cychwyn ar gyrch i ddarganfod ffrind coll a all fod â'r ateb – ond fel gyda phob cyrch da, mae'n darganfod mwy amdani hi ei hun, a llawer

The Levels gan Helen Pendry

Parthian Press 2019

ISBN 9-781912-109401 Clawr papur, 282tt, £8.99

Bydd darllenwyr *Heddwch* yn gyfarwydd â'r damweiniau drôn yn Aberporth yng Ngheredigion. Mae'r nofel hon, gan yr awdur o Fachynlleth, Helen Pendry,



Westminster. Ac mae yma rai lluniau diddorol (os aneglur) hefyd. Ysyaeth, ychydig iawn sydd am y cwbl oedd yn digwydd yng Nghymru. Mae'r neges yn glir iawn "Daliwch ati!" Ac – "Os ydych chi'n cofio'r 80au, yna yn sicr roeddech chi, fel Chris Savory, yno." I gyrraedd lle rydyn ni nawr roedd rhaid i ni fod yno bryd hynny. Diolch Chris, dyma lyfr i'w ddarllen wrth y tân a fydd yn codi'r galon yn yr amserau clo hyn.

Jill Gough

am y natur ddynol, wrth iddi chwilio am y gwir. Mae'r nofel yn wynebu'n ddigymrodded y modd caiff cefn gwlad Cymru ei ecsbloetio gan y cymhleth milwrol-ddiwydiannol, gan arian amheus, gwleidyddion hunangeisiol a'r wasg.

Mae'r rhagarweiniad i'r nofel yn dyfynnu lolo Morganwg

JAN MORRIS 1926-2020

Cafwyd teyrngedau lu i Jan Morris, a fu farw yn 94 oed. Fe gofiwn ninnau hi fel ffrind da i CND Cymru.

Ganed Jan yn James Morris yng Ngwlad yr Haf, i dad o Gymro a mam o Saesnes. Cafodd fagwraeth Seisnig ddosbarth-uwch gonfensiynol, ond uniaethai'n gryf â'i gwreiddiau Cymreig. Roedd ei bywyd wedi hynny ymhell o fod yn gonfensiynol.

Fel newyddiadurwr gyda'r *Times* ym 1953, hi oedd y cyntaf â'r newyddion am esgyniad Everest. Ym 1956, gyda'r *Manchester Guardian* yn ystod Argyfwng Suez, hi oedd y cyntaf i brofi bod Ffrainc (ynghyd â Phrydain) yn rhoi cefnogaeth gyfrinachol i gyrch Israel yn erbyn yr Aifft. Yn 1961 adroddodd ar achos llys y troseddwr rhyfel Natsiaidd, Adolf Eichman.

Ym 1964 cychwynnodd Jan Morris y broses o drawsnewid, gyda llawdriniaeth i newid

rhyw ym 1972. Sgrifennodd am ei phrofiadau yn *Conundrum* (1974). Ym 1978 cwblhaodd ei hanes tair-rhan o'r ymerodraeth Brydeinig, *Pax Britannica*. Roedd Jan eisoes wedi ennill ei phlwyf fel awdur ysgrifau a llyfrau ysbrydoledig

am ddinasoedd a theithio. Roedd hi dan gyfareded Penis ar hyd ei bywyd. Mae ei sgrifennu'n fywiog a theimladwy, wedi'i drwytho gan grebwyll hanesyddol. Roedd cartref Jan Morris yn Llanystumdwy, ac roedd nifer o'i llyfrau, megis *Wales, the First Place* (1982) a *Wales: Epic Views of a Small Country* (1984), yn adlewyrchu ei hangerdd dros Gymru.

Gwrthwynebodd Ryfel y Falklands ym 1982. Mae Jill Gough yn cofio cyfarfod â hi




yn y 1990au. "Cefais sgwrs hir gyda Jan am ei hawydd am heddwch a diarfogi niwclear yng Nghymru â'r byd ehangach. Yn dilyn ei marwolaeth, mae cyfryngau Llundain i raddau helaeth wedi anwybyddu cefnogaeth frwd Jan i Gymru annibynnol, ddi-niwclear. Glynodd yn gadarn wrth y delfrydau hyn hyd y diwedd." Mae Jan yn gadael ei chymar oes, Elizabeth, a phedwar o'i phlant, yn cynnwys ei mab Twm Morys, y Prifardd, golygydd a cherddor.

ADOLYGIADAU LLYFRAU

(Edward Williams, 1747-1826): 'Gwych a fyddai cael hanes Celfyddydau Tangnef ymhlith y Cymry, a gwydach fyth a fyddau claddu yn anghof y pwll dyfnaf yn uffern, yr holl hanes y sydd am ryfel a Rhyfelwyr, am Frenhinoedd

Mae'r cyrch yn ein harwain trwy gefn gwlad Cymru yn y gaef, gan fapio'i thirwedd a'i llynnoedd, ei



gorffennol diwydiannol a'i phresennol anodd. Mae'n cyflwyno materion moesegol, fel trais ar lefel bersonol, gymdeithasol, a gwladol.

Fe wnâi'r stori ffilm neu gyfres deledu wych – ond os yw'ch cydymdeimlad chi gyda lolo, darllenwch y nofel hon nawr.

Philip Steele

CND CYMRU

Mae CND Cymru'n ymgychu ochr yn ochr â llu fudiadau eraill yng Nghymru a phedwar ban y byd i gael gwared o arfau dinistr torfol o Brydain a'r byd, a thros heddwch a chyfiawnder i bobl a'r amgylchedd.



gwefan: www.cndcymru.org
e-bost: heddwch@cndcymru.org
trydar: @cndcymru
instagram: @cndcymru
gweplyfr: CND Cymru

CYSYLLTIADAU:

Cadeirydd: Jill Evans

jillrhondda@yahoo.com
 07803 902 401

John Cox [Caerdydd]
 drjohncox121@gmail.com
 01495 773495

Brian Jones [Pontardawe]
 brian.jones@phonecoop.coop
 01792 830330

Duncan Rees [Glannau Dyfrdwy]
 Duncan.rees01@gmail.com
 07534 975461

Philip Steele [Ynys Môn]
 phil_steele@btinternet.com
 01248 490715

Ysgrifennydd Cenedlaethol
 01239 851188
 d/o Llys Gwyn, Glynarthen,
 Llandysul SA44 6PS

Trysorydd ac Aelodaeth:

Michael Freeman
 michael.freeman9@btinternet.com
 CND Cymru, 9 Rhiw Briallu, Llanbadarn
 Fawr, Aberystwyth SY23 3SE

HEDDWCH

Heddwch yw cylchgrawn yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear yng Nghymru, CND Cymru. Nid yw'r cynnwys o anghenraid yn adlewyrchu barn neu bolisiâu CND Cymru. Rydym yn croesawu dadl a thrafodaeth. Anfonwch unrhyw sylwadau, cyfraniadau neu ddyddiadau ar gyfer digwyddiadau at y golygydd.

Golygydd: Philip Steele
 phil_steele@btinternet.com 01248 490715
Cyfieithydd: Siân Edwards
 sian@siandefynnog.cymru
Cynhyrchu a phostio: Redkite Print
 jon@thefreeflyer.com
 Cyhoeddir rhifyn nesaf **HEDDWCH** yng Ngwanwyn 2021.

YMUNWCH Â CND CYMRU NAWR!

<https://www.cndcymru.org/cy/cymryd-rhan/aelodaeth>

